

Cyngor Tref Llandeilo Fawr Llandeilo Fawr Town Council



Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 11^{eg} o Ebrill 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Edward Thomas (Cadeirydd), y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Dawn Wallace
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Owen James, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Lesley Prosser.

Cof 9 / Ebrill / 18 Datganiadau o Fuddiant. Dim

Cof 10 / Ebrill / 18 Cyfrifon i'w talu

Cyfrifon i'w talu	Net	TAW	Cyfanswm
Hugh Gwynne DD 604PP	£ 80.00	£ 16.00	£ 96.00*
Hugh Gwynne DD604PIQ	£ 80.00	£ 16.00	£ 96.00*
Ar y Gair (cyfieithu)	£ 10.00		£ 10.00*
Ar y Gair (cyfieithu)	£ 22.25		£ 22.25*
David Rice (adroddiad coed)	£ 85.00		£ 85.00*
Orchardweb (gwefan)	£ 70.00		£ 70.00*
Relm Signs (bathodynau'r cyngor)	£ 29.25	£ 5.85	£ 35.10*
HAGS (muga PLQ)	£ 11,721.00	£ 2,344.20	£14,065.20*

Bacs - * Siec - #

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 11 / Ebrill / 18 Incwm a dderbyniwyd ers y 14^{eg} o Fawrth 2018 hyd yn hyn

Arian parod / Siec £ 10.00

Cof 12 / Ebrill / 18 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLI (fel ar 10 /4 /18)	£ 7,908.67
Cyfrif Cadw CTLI (fel ar 10/4/18)	£ 26,992.30
Bond Adnau Llog Uchel	£ 30,000.00
Balans Cyfrif y Maer 31/3/18	£ 1,760.31

Cof 13 / Ebrill / 18 Materion Ariannol Eraill

1. Adroddiad Diwedd Blwyddyn (Ch4) Cyllideb 2017/18

Cyflwynodd y Swyddog Cyllid yr adroddiad hwn fel drafft cyntaf, a byddai'n cael ei gadarnhau pan fyddai'r dogfennau archwilio wedi dod i law yn ystod yr wythnosau nesaf. Roedd yn amlwg o'r siart gylch a arddangoswyd bod gwariant ar y parciau'n rhan sylweddol o wariant y Cyngor erbyn hyn.

3. Diwygiadau i Gyllideb 2018/19.

Mae'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2018/19 yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith nad yw'r gwaith ar y maes chwarae wedi cael ei gwblhau, ac nad yw'r cytundeb prydlesu ar gyfer Parc Le Conquet wedi cael ei gwblhau ychwaith. Felly, mae'r arian sy'n ddyledus oddi wrth CSG wedi cael ei gynnwys yn y gyllideb newydd. Cyfrifwyd cyfanswm o £51,325, ar sail yr hyn a ddisgwylir gan gytundeb gwreiddiol CSG. Yn ogystal, mae'r £125,000 gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWL) wedi'i gynnwys, gan fod y cais am fenthyciad yn barod i'w gyflwyno i LIC. Mae angen yr arian yma yn y flwyddyn hon. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y flwyddyn yw £282,684. Cadarnhaodd y Swyddog Cyllid mai'r gyllideb ar gyfer y parciau oedd £18,365, yn ogystal â £3,940, o bosib. Mae'r ffigyrau'n seiliedig ar y rhagolwg gwreiddiol yn adroddiad Carl Morgan.

4. Caniatâd i wneud cais i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.

Dyweddodd y Swyddog Cyllid mai gwneud cais i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus am £125,000 fyddai cyfraniad y Cyngor Tref tuag at brosiect mawr y Gronfa Loteri Fawr, yn unol â'r prosiect trosglwyddo asedau cymunedol. Byddai'r gyfradd llog yn sefydlog ar 2.63%, i'w ad-dalu dros 25 mlynedd. Byddai'r prosiect yn cyflawni ailddatblygiad Neuadd y Sir at ddefnydd y gymuned yn y tymor hir. Mae'r Cyngor Tref yn cydweithio gyda Menter Bro Dinefwr ar hyn. Bydd gan Fenter Bro Dinefwr brydles hirdymor 99 mlynedd, tra bydd y Cyngor Tref yn parhau i fod yn berchen ar Neuadd y Sir.

Cynigodd y Cyng. Eifion Davies bod caniatâd yn cael ei roddi i'r Swyddog Cyllid i wneud cais am fenthyciad o £125,000 gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

5. O ganlyniad i'r diwygiadau i gyllidebau 2017/18 a 2018/19, bu'n rhaid diwygio rhagolygon y gyllideb hefyd. Mae'r ffigyrau diweddaraf wedi cael eu cynnwys nawr, gyda diwygiad arbennig i'r ffordd y dangosir TAW. Yn seiliedig ar y taflenni Rhagolwg Cyllideb gwreiddiol, mae yna nodiadau ychwanegol i roi mwy o eglurder. Hefyd, mae'r codiad yn y praecept o 2020/21 wedi cael ei ostwng i 2% o 5%. Dywedodd Mr Plummer y bydd hi'n anodd cyllido yn y tymor byr, ac y byddai pethau'n tawelu unwaith fydd y gwaith mwyaf wedi cael ei wneud.

6. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bleidlais o ddiolch i'r Swyddog Cyllid am ei holl waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf, i dywys y Cyngor trwy'r broses Trosglwyddo Asedau. Roedd pawb o blaid.

Cof 14 / Ebrill / 18 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

i) Cymdeithas Pensiynwyr Llandeilo a'r Cylch (band C)

Cynigodd y Cyng. Eifion Davies rodd o £100, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

ii) Martha Harries. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod rhodd o £75 yn cael ei roddi tuag at gostau Martha i fynychu'r cwrs drama dros yr haf. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies.

Cafwyd 2 bleidlais o blaid y cynnig, gyda 2 yn ymwrthod. Aeth pleidlais fwrw'r Cadeirydd o blaid y cynnig.

Cof 15 / Ebrill / 18 Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol

Cafodd argymhelliad y Pwyllgor Cynllunio, i ystyried talu'r gost o £1,150 am adroddiad coed Parc Penlan David Rice, ei gyfeirio at yr Is-grŵp Trosglwyddo Asedau.

Cof 16 / Ebrill / 18 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50yh.